



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Diweddariad

Tachwedd 2019

Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Diweddariad 2019

Cyflwyniad

Hwn yw'r trydydd mewn cyfres o ddiweddariadau cynnydd blynyddol^{1,2} ar raglen waith a nodwyd ym mis Ionawr 2017 i ystyried diwygiadau i drethi lleol a fframwaith cyllid ehangach llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'n amlinellu'r cynnydd a wnaed gennym dros y flwyddyn ddiwethaf wrth inni weithio tuag at gyflawni'r rhaglen a'r nodau a'r amcanion a nodwyd yn ein Strategaeth Genedlaethol, *Ffyniant i Bawb*.

O ganlyniad i gryn ymdrech a chydweithio rhwng llywodraeth leol, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a nifer o sefydliadau eraill, mae'r gwelliannau a nodwyd ar gyfer cyflawni yn y tymor byrrach bellach wedi cael eu gwneud. Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar ein cynnydd tuag at ddyheadau yn y tymor canolig a'n hystyriaeth o ddulliau gweithredu amgen dros gyfnod llawer hwy.

Rydym wedi ymgynghori ar gynigion penodol wrth iddynt gael eu datblygu, a byddwn yn parhau i wneud hynny, ond croesawn unrhyw sylwadau a chyfraniadau at y ddatl ar unrhyw gam o'r broses. Mae'r rhaglen sylweddol yn cael ei hategu gan rwydwaith o randdeiliaid, gan gynnwys Gweithgor Rheolwyr Refeniw a Budd-daliadau Cymru, Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru, nifer o grwpiau llywio penodol a sefydliadau academiaidd.

Y cefndir a'r rhaglen waith

1. Mae *Symud Cymru Ymlaen* a'r Strategaeth Genedlaethol *Ffyniant i Bawb* yn amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer tymor y Cynulliad hwn a thu hwnt. Mae Gweinidogion Cymru yn breinio swyddogaethau mewn llywodraeth leol i gyflawni llawer o'r blaenoriaethau cenedlaethol hyn ar lefel leol, ac mae gan awdurdodau bob rhyddid i bennu blaenoriaethau lleol ynglŷn â'r gwasanaethau a fydd yn fuddiol i gymunedau yn eu barn hwy. Ni allai llawer o'r gwasanaethau fodoli heb system gyllido sefydlog ac effeithiol sydd hefyd yn gwireddu dyheadau polisi ac yn anelu at degwch.
2. Mae'r ffordd y dylid cyllido gwasanaethau llywodraeth leol a'r ffordd y gellid llunio trethi lleol yn ddau fater sydd wedi cael eu hystyried gan nifer o adolygiadau^{3,4,5}. Ers Pwyllgor Layfield yn 1976, sy'n rhagddyddio datganoli, mae'r corff sylweddol o ymchwil bellach yn rhychwantu'r DU ac yn ystyried y sefyllfa ryngwladol. Ac er

¹ Hydref 2018. <https://llyw.cymru/diwygio-cyllid-llywodraeth-leol-diweddariad-2018>

² Hydref 2017. <https://llyw.cymru/diwygio-cyllid-llywodraeth-leol-diweddariad-2017>

³ Adolygiad Mirlees, Medi 2011. <https://www.ifs.org.uk/publications/mirrleesreview>

⁴ Ymchwiliad Lyons, Mawrth 2007. <http://www.lyonsinquiry.org.uk/>

⁵ Y Comisiwn Annibynnol ar Gyllid Llywodraeth Leol Cymru, Mawrth 2016.

<http://www.cipfa.org/partners/independent-commission-on-local-government-finance-wales/final-report>

bod pedair gwlad y DU bellach yn gweithredu systemau mwyfwy gwahanol ar gyfer cyllido gwasanaethau lleol, efallai mai gan Gomisiwn yr Alban ar Ddiwygio Trethi Lleol⁶ yn 2015 y ceir yr asesiad cynhwysfawr mwyaf diweddar o'r dulliau amgen posibl.

3. Yn 2017, nododd Llywodraeth Cymru⁷ sut y bydd yn gwneud rhai gwelliannau cychwynnol i'r systemau presennol ac yn cymryd amser hefyd i ystyried, mewn ffordd gymhwysol ac ymarferol, a yw'r dulliau gweithredu amgen yn opsiynau hyfwr i godi refeniw ar gyfer gwasanaethau lleol. Byddwn hefyd yn cyflwyno'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) cyn hir. Ei nod yw galluogi cyrff cyhoeddus i gynllunio a darparu gwasanaethau ar y cyd er mwyn iddynt ddod yn fwy cadarn i ateb yr heriau ariannol a demograffig a wynebwr o hyd. Yn y cyddestun ehangach hwn o ddiwygio sectoraidd, degawd o gyni cyllidol a'r posibilrwydd y bydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, rydym yn gweithredu ein rhaglen gytûn o ddiwygiadau graddol i gyllid llywodraeth leol.
4. Mae Ffigur 1 yn crynhoi'r gwahanol agweddau ar y rhaglen waith, y mae llawer ohonynt wedi cael eu cyflawni ers 2017. Ers dechrau'r tymor llywodraeth hwn rydym wedi dweud mai awdurdodau lleol mwy cadarn, tegwch i ddinasyddion a busnesau, a chyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau lleol hanfodol yw ein blaenoriaethau. Nid yw hynny wedi newid wrth inni ystyried newidiadau posibl ac mae'n cyflwyno heriau am fod y dewisiadau gwahanol yn aml yn golygu cyfaddawdu rhwng y nodau hyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn anelu at sicrhau'r cydbwysedd cywir wrth inni symud ymlaen i ystyried newidiadau mwy sylfaenol. Mae'r ddwy dreth leol yn sicrhau cyfraddau casglu o 97% yn gyson o flwyddyn i flwyddyn ac maent yn cynnwys elfennau sy'n helpu i gyflawni amcanion polisi ehangach. Bydd yn rhaid i unrhyw ddulliau gweithredu amgen fod yn amlwg well na'r systemau presennol; nid dim ond yn wahanol.
5. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu amlinellu'r posibiladau ar gyfer diwygio yn y tymor hwy yn ystod hydref 2020, er mwyn llywio'r ddadl cyn tymor nesaf y Cynulliad. Pan fyddwn yn gwneud newidiadau i bolisi trethi lleol, byddwn yn eu gwneud yn unol â'n hegwyddorion o ran treth – dylai trethi Cymru wneud y canlynol:
 - Codi refeniw i gyllido gwasanaethau cyhoeddus mor deg â phosibl;
 - Cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru, yn enwedig cefnogi swyddi a thwf;
 - Bod yn glir, yn sefydlog ac yn syml;
 - Cael eu datblygu drwy gydweithio a chyfranogi;

⁶ Comisiwn yr Alban ar Ddiwygio Trethi Lleol, Rhagfyr 2015. <http://localtaxcommission.scot/download-our-final-report/>

⁷ Datganiad Llywodraeth Cymru, Ionawr 2017.

<https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-diwygior-system-gyllid-ar-gyfer-llywodraeth-leol>

- Cyfrannu at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu Cymru sy'n fwy cyfartal.
6. Mae *Fframwaith Polisi Trethi*⁸ a *Chynllun Gwaith 2019*⁹ Llywodraeth Cymru yn nodi sut rydym yn ymdrin â pholisi trethi strategol yng Nghymru ar gyfer y trethi datganoledig a lleol. Caiff adroddiad ar ein cynnydd o ran cyflawni'r cynllun gwaith ei gyhoeddi ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2020-21. Er bod y gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i referiw trethi lleol gael ei ddefnyddio i gyllido gwasanaethau lleol, mae cyfleoedd i ystyried sut mae trethi lleol yn cyd-blethu â'r trethi datganoledig newydd a threthi'r DU y mae pobl, sefydliadau a busnesau yn eu talu.
 7. Mae'r rhaglen waith hon yn cyfrannu at nodau strategol y llywodraeth hon. Mae gwasanaethau lleol hanfodol fel addysg a gofal cymdeithasol yn dibynnu ar system gyllido deg sy'n addas at y diben wrth i wasanaethau ddatblygu. Rydym yn defnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael inni wneud Cymru yn gymdeithas fwy cyfartal, llewyrchus a gwyrdd. Mae'n rhaid i lywodraeth leol gael ei galluogi i barhau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gwell i bawb, i roi'r sylfaen orau yn y blynyddoedd cynnar, er mwyn helpu'r rhai sydd ei angen fwyaf, a mynd i'r afael â thlodi drwy greu economi ffyniannus y mae ei buddiannau'n deg i bawb.

⁸ Fframwaith Polisi Trethi Llywodraeth Cymru, Mehefin 2017
<https://gweddi.gov.wales/docs/caecd/publications/170612-framework-cy.pdf>

⁹ Cynllun Gwaith Polisi Trethi Llywodraeth Cymru 2019
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/cynllun-gwaith-polisi-trethi-2019.pdf>

Ffigur 1: Amcanion ar gyfer trethi lleol ac amserlen ddangosol

Trethi lleol teg, graddoledig ac wedi'u targedu'n well

- cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach newydd sy'n cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru (**wedi'i gyflawni**)
- biliau ardrethi annomestig is drwy newid y system uwchraddio flynyddol o'r Mynegai Prisiau Manwerthu i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (**wedi'i gyflawni**)
- ymgynghori ar newidiadau i ryddhad ardrethi i ysgolion annibynnol ac ysbysai (2019)
- treth gyngor deg a graddoledig (**gwelliannau cychwynnol wedi'u cyflawni**, gwaith yn parhau)
- gwella cysondeb o ran y ffordd y caiff y rhai sy'n gadael gofal a phobl â Nam Meddyliol Difrifol eu trin (**wedi'i gyflawni**)
- gwella Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar ôl ystyried diwygiadau lles y DU (o 2019)
- **ystyried** dulliau gwahanol o ymdrin â threthi lleol, e.e. newidiadau sylfaenol i fandiau treth gyngor, trethi gwerth tir, trethi incwm lleol (yn mynd rhagddo)

Trefn effeithiol a chymesur ar gyfer gweinyddu trethi lleol

- ymarfer ailbrisio ardrethi annomestig yn 2017 a chyfnod trosiannol (**wedi'i gyflawni**)
- gwella trefniadau rheoli a gorfodi ôl-ddyledion y dreth gyngor (yn mynd rhagddo)
- cael gwared ar y gosb o ddedfryd o garchar am beidio â thalu'r dreth gyngor (**wedi'i gyflawni**)
- ymarfer ailbrisio ardrethi annomestig nesaf yn 2021 (yn mynd rhagddo)
- mynd i'r afael ag osgoi ardrethi annomestig (yn mynd rhagddo, yn dechrau o 2021)
- diwygio apeliadau yn erbyn ardrethi annomestig (2021)
- gwella prosesau rhannu gwybodaeth a galluogrwydd (yn barhaus)
- **ystyried** ffyrdd mwy modern ac amlach o ailbennu prisiadau eiddo (yn mynd rhagddo)

Cefnogi fframwaith cyllid ehangach llywodraeth leol

- cefnogi bargeinion dinesig a thwf (yn parhau)
- cynnig hyblygrwydd newydd o ran cyllid cyfalaf (**wedi'i gyflawni**)
- datblygu fformiwla'r setliad mewn ymateb i batrymau gwario newidiol (yn flynyddol) a newidiadau i drethi lleol (o 2019)
- datblygu fframwaith cyllido sy'n ei gwneud yn bosibl i wasanaethau gael eu diwygio a'u trawsnewid (yn mynd rhagddo)
- **ystyried** cydbwysedd cyllid rhwng yr arian a godir yn lleol a'r arian a ddarperir yn ganolog (o 2020)

Trefniadau llywodraethu ariannol cadarn ac atebolrwydd lleol cryfach

- cefnogi rôl y Prif Swyddog Cyllid mewn amgylchedd sy'n newid (yn barhaus)
- cynnwys dinasyddion mewn penderfyniadau ar flaenoriaethau gwario (yn barhaus)
- gwelliant parhaus i drefniadau llywodraethu ariannol, cyfrifyddu ac archwilio o ganlyniad i newidiadau eraill a ddisgrifir

Diwygiadau yn y tymor byr

8. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau sydd o fewn pwerau presennol Gweinidogion Cymru ac sydd wedi cael eu rhoi ar waith yn gymharol gyflym. Mae adroddiadau diweddarau blaenorol wedi esbonio'n fanwl y diwygiadau yn Ffigur 1 sydd wedi cael eu cyflawni ers dechrau'r tymor llywodraeth presennol, felly nid yw'r cynnwys hwn yn cael ei ailadrodd yn yr adroddiad hwn.

Treth gyngor deg a graddoledig

9. Mae *Symud Cymru Ymlaen* yn cynnwys ymrwymiad i **weithio gyda llywodraeth leol i adolygu'r dreth gyngor i'w gwneud yn decach**. Ers 2017 rydym wedi ystyried yr opsiynau i'w gwneud yn decach, a pha mor debygol ydyw y gellid cyflawni system fwy graddoledig¹⁰. Mae llawer o'r opsiynau i'w hystyried yn y tymor canolig neu'r hirdymor ond rydym hefyd wedi cyflwyno gwelliannau byrdymor. Yn 2019, canolbwyntiwyd ar wella'r cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal a phobl sydd â nam meddyliol difrifol, yn ogystal â chynnal ein hymgyrch genedlaethol unwaith eto i godi ymwybyddiaeth o'r gwahanol fathau o gymorth.

Cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal

10. Pobl ifanc a fu yng ngofal awdurdod lleol am o leiaf 13 wythnos ers 14 oed yw'r rhai sy'n gadael gofal. Gallant fod ymhlith y bobl ifanc fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, heb rwydwaith cymorth teuluol yn ystod digwyddiadau pwysig yn eu bywydau, megis symud i mewn i'w cartref cyntaf ar ôl gadael gofal. Roedd rhai awdurdodau lleol wedi eu heithrio yn wirfoddol rhag talu'r dreth gyngor hyd at 24 neu 25 oed.
11. Ym mis Tachwedd 2018¹¹ ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar greu eithriad gorfodol er mwyn sicrhau bod pob person ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru yn cael ei drin yn yr un ffordd o ran y dreth gyngor ac yn cael ei eithrio rhag talu'r dreth gyngor hyd at 25 oed. Mynegodd dros 90% o'r ymatebwyr gefnogaeth i'r cynigion ac ym mis Chwefror 2019, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd y bwriad i gyflwyno deddfwriaeth i eithrio'r rhai sy'n gadael gofal er mwyn eu helpu a'u galluogi i bontio'n llwyddiannus i fyd oedolion a byw'n annibynnol. Gosodwyd y ddeddfwriaeth angenrheidiol ar 6 Mawrth a daeth i rym o 1 Ebrill 2019.

¹⁰ Mae graddoledig fel cysyniad wrth lunio trethi eiddo yn ymwneud yn gyffredinol â'r nod y bydd y cyfraddau treth yn cynyddu wrth i werthoedd eiddo gynyddu.

¹¹ Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2018.

<https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-11/MA-P-MD-3821-18%20-%20Consultation%20on%20Council%20Tax%20Exemptions%20for%20Care%20Leavers%20%28Welsh%29.pdf>

12. Gyda chymorth awdurdodau lleol, y trydydd sector a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, roeddem yn gallu gweithio'n gyflym drwy oblygiadau ymarferol creu eithriad newydd i sicrhau triniaeth gyson ledled Cymru. Drwy gyflwyno deddfwriaeth newydd o fewn amserlen gymharol fyr dangoswyd ein hymrwymiad ar y cyd i sicrhau bod trethi lleol yn decach i'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Byddwn yn parhau i fonitro'r ffordd y gweithredir yr eithriad i'r rhai sy'n gadael gofal er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth a'r gweithdrefnau lleol yn gweithio yn ôl y bwriad.

Cymorth i bobl sydd â nam meddyliol difrifol

13. Gall unrhyw un sydd wedi cael tystysgrif feddygol yn nodi bod ganddynt gyflwr parhaol sy'n effeithio'n ddifrifol ar eu gweithrediad deallusol neu gymdeithasol fod yn gymwys i gael gostyngiad neu eithriad rhag talu'r dreth gyngor. Datgelodd ymchwil gan MoneySavingExpert.com yn 2017¹² anghysondeb yn y negeseuon roedd awdurdodau lleol ledled Cymru a Lloegr yn eu rhoi i aelwydydd o ran y gostyngiadau a'r eithriadau sydd ar gael. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, ystyriwyd y materion gyda MSE ac awdurdodau lleol i ddatblygu barn gyfun am y trefniadau cywir. Yn yr ymgyrch a lansiwyd gennym ar y cyd â'n partneriaid ym mis Medi 2018 rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'n canllawiau¹³ ar y gwahanol fathau o gymorth a roddir o ran y dreth gyngor, gan gynnwys cymorth i bobl sydd â nam meddyliol difrifol. Cydnabuwyd gennym fod rhagor o waith i'w wneud.

14. Gwnaethom ymrwymo bryd hynny i weithio gyda MSE ac awdurdodau lleol i ddatblygu ffurflen gais safonol i hawlio'r gostyngiad ac ystyried yr opsiynau o ran ôl-ddyddio. Ymgwymerwyd â'r gwaith hwn gan y 22 o awdurdodau lleol a CLILC, a helpodd i ddatblygu un ffurflen gais sy'n syml, hawdd ei defnyddio ac ar gael yn gyffredinol gan bob awdurdod lleol a chanolfan gynghori ledled Cymru. Ar 10 Ebrill 2019¹⁴ cynhaliodd y Gweinidog Cyllid a Martin Lewis ddigwyddiad yn y Senedd i lansio'r ffurflen gais safonol a pholisi ôl-ddyddio cyson. Mae pob awdurdod wedi cytuno i ôl-ddyddio ceisiadau i adeg y diagnosis lle y bodlonir y meini prawf cymhwysedd. Cafodd y lansiad sylw yn y cyfryngau cenedlaethol ac yn hysbysiadau e-bost MSE, sy'n cyrraedd hyd at naw miliwn o bobl yn rheolaidd, yn ogystal â chael ei gefnogi gan awdurdodau lleol unigol.

15. Am y tro cyntaf, gall pobl sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ac sydd wedi cael diagnosis o nam meddyliol difrifol ddisgwyl cael eu trin yn gyson ledled Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr un cymorth a gostyngiadau, ni waeth

¹² Money Saving Expert "The Disregarded Discount", Medi 2017.

https://images6.moneysavingexpert.com/images/documents/SMI_report-2017_final-interactive.pdf

¹³ Allech chi dalu llai o Dreth Gyngor? <https://llyw.cymru/disgownt-gostyngiad-treth-gyngor>

¹⁴ Lansio'r ffurflen gais a threfniadau cyson ar gyfer gostyngiadau ac eithriadau i bobl â nam meddyliol difrifol. <https://www.moneysavingexpert.com/news/2019/04/wales-champions--severely-mentally-impaired--p400-yr-council-tax/>

ble maent yn byw. Byddwn yn monitro'r broses weithredu a phrofiadau pobl sydd â nam meddyliol difrifol er mwyn sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau newydd yn cael eu hymgorffori. Mae hon yn enghraifft o gydweithredu ar ei orau er mwyn helpu rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed i gael y cymorth y mae ganddynt hawl i'w gael.

Ymgyrch codi ymwybyddiaeth

16. Yn 2018 gwnaethom ymateb i rywfaint o dystiolaeth mai niferoedd bach o bosibl sy'n ceisio cymorth i dalu'r dreth gyngor drwy lansio ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth. Roedd gweithgarwch yr ymgyrch yn cynnwys cyngor haws ei ddeall ar wefan Llywodraeth Cymru, rhoi deunydd ysgrifenedig amrywiol i hybiau cymunedol a chanolfannau cyngori, hysbysebion wedi'u targedu yn y cyfryngau cymdeithasol ac ymgysylltu ag awdurdodau lleol, Canolfannau Cyngor ar Bopeth a MoneySavingExpert.com er mwyn cael sylw ar lefel genedlaethol.

17. Yn ogystal â chanolbwyntio ar grwpiau penodol o drethdalwyr, megis y rhai sy'n gadael gofal a phobl sydd â nam meddyliol difrifol, rydym wedi parhau i godi ymwybyddiaeth o'r holl gymorth sydd ar gael i bob aelwyd wrth gyflawni ei rhwymedigaeth i dalu'r dreth gyngor. Ar ddechrau 2019, pan oedd awdurdodau lleol yn anfon eu biliau treth gyngor, ail-lansiwyd ein hymgyrch sydd bellach wedi cyrraedd dros 60,000 o bobl drwy wybodaeth gyffredinol ac wedi'i thargedu.

Ardrethi Annomestig: helpu busnesau i ffynnu

18. Mae diweddariadau blaenorol yn amlinellu'r camau uniongyrchol a gymerwyd yn 2017 a 2018 i weithredu ar ein hymrwymiad yn *Symud Cymru Ymlaen* i **dorri trethi drwy roi cymorth i fusnesau bach dalu eu biliau ardrethi annomestig**. Dangoswyd ein hymrwymiad i gefnogi busnesau drwy ddeddfu yn 2017 i wneud y cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach dros dro yn un parhaol ac yna adolygu a chyflwyno gwell cynllun yn 2018. Gan fod y newidiadau polisi uniongyrchol hyn wedi cael eu cyflwyno bellach, rydym wedi parhau i gefnogi busnesau drwy newidiadau pellach i ardrethi annomestig yn 2019.

Newidiadau i'r gweithdrefnau i uwchraddio ardrethi annomestig yn flynyddol

19. Ym mis Rhagfyr 2017, penderfynodd Llywodraeth Cymru newid y gweithdrefnau i uwchraddio ardrethi annomestig yn flynyddol i adlewyrchu symudiadau yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu¹⁵. Yn sgil y cyhoeddiad, mae'r newidiadau uwchraddio wedi cael eu cadarnhau drwy reoliadau blynyddol pellach. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wneud y

¹⁵ Datganiad Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2017.

https://llyw.cymru/sicrhau-toriad-treth-i-fusnesau-bach-cynllun-rhyddhad-ardrethi-newydd-ar-gyfer-busnesau-bach-yng?_ga

newid hwn yn barhaol drwy'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), gan roi sicrwydd i dalwyr ardrethi ynglŷn â chodiadau blynyddol yn eu biliau ardrethi annomestig. Mae'r penderfyniad hwn yn dangos o hyd ein hymrwymiad i leihau'r baich ar dalwyr ardrethi, a sicrhau bod y cyllid hollbwysig ar gyfer gwasanaethau lleol yn parhau'n gynaliadwy ar yr un pryd.

Helpu manwerthwyr a'r stryd fawr

20. Bu cryn sôn am yr heriau y mae'r sector manwerthu ledled y DU yn eu hwynebu o ganlyniad i nifer o ffactorau: incwm gwario pobl yn mynd yn llai, newidiadau mewn tueddiadau ymhlith defnyddwyr i siopa ar-lein, gorehangu'n gynnar, costau cynyddol, mwy o amrywiaeth a chystadleuaeth. Er mai tueddiadau economaidd byd-eang yw llawer o'r rhain, rydym yn ymrwymedig i wneud popeth o fewn ein gallu yng Nghymru i helpu cymunedau lleol i gynnal eu hunaniaeth a'r cyfleusterau y mae pobl am eu gweld, er mwyn ysgogi ffyniant, trechu tlodi a lleihau anghydraddoldeb.
21. Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr a Manwerthu ar gyfer 2019-20¹⁶ ar ffurf estynedig fel un newid polisi i gefnogi sector manwerthu sy'n esblygu. Mae'r cynllun estynedig yn mynd dipyn ymhellach nag mewn blynyddoedd blaenorol, gan roi cymorth i bob manwerthwr yng Nghymru sydd â gwerth ardrethol o hyd at £50,000. Mae'n helpu tua 15,000 o fusnesau bach a chanolig yn 2019-20 drwy roi hyd at £2,500 tuag at filiau ardrethi annomestig. Ariennir y cynllun yn llawn gan Lywodraeth Cymru.
22. Ochr yn ochr â'r cynllun rhyddhad ardrethi'r stryd fawr a manwerthu estynedig, rydym hefyd wedi rhoi £2.4m arall mewn cyllid grant i awdurdodau lleol, gan ganiatáu iddynt roi rhyddhad ardrethi dewisol ychwanegol i fusnesau lleol a thalwyr ardrethi eraill ym mhob ardal. Mae hyn yn galluogi llywodraeth leol i ymateb i faterion lleol penodol o ran caledi a chefnogi twf economaidd lleol yn ystod hinsawdd ariannol heriol.
23. Mae'r cynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr a Manwerthu ar ei ffurf estynedig a'r cyllid ychwanegol ar gyfer rhyddhad dewisol, ynghyd â'r cynllun Rhyddhad Ardrethi parhaol i Fusnesau Bach a rhyddhadau pwrpasol eraill, gyda'i gilydd, yn cynnig cymorth amserol ac wedi'i dargedu i dalwyr ardrethi yng Nghymru yn unol ag amrywiaeth eang o amcanion polisi Llywodraeth Cymru.
24. Mae manwerthwyr yn fusnesau sy'n cyfrannu at hunaniaeth ehangach canol ein trefi (ac ardaloedd eraill). Fodd bynnag, mae'r ffordd y mae pobl yn defnyddio

¹⁶ Datganiad Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2018.

<https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-estyniad-i-ryddhad-ardrethir-stryd-fawr-yn-2019-20>

canol trefi wedi newid ac mae hynny'n parhau i esblygu. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen iddi wneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau bod canol trefi yn lleoedd gwych i fyw, gweithio a chwarae ynddynt; a'u bod yn aros yn destun balchder dinesig a llesiant. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor i helpu drwy sicrhau bod mwy o gyrff cyhoeddus a sefydliadau partner yn cael eu lleoli yng nghanol trefi, a thrwy sicrhau bod ein gwahanol fathau o fuddsoddiad ariannol yn cael eu targedu tuag at yr un amcanion. Caiff ein hystyriaeth o bolisiau ardrethi annomestig yn y dyfodol, yn enwedig y buddsoddiad sylweddol a wnawn mewn rhyddhad ardrethi, yn cael ei llywio gan nodau strategol ehangach megis gwella canol trefi.

Trefn effeithiol a chymesur ar gyfer gweinyddu trethi lleol

Rheoli dyledion treth gyngor a gorfodi

25. Ar 1 Ebrill 2019 cafwyd gwared ar y bygythiad o ddeddfryd o garchar am beidio â thalu'r dreth gyngor yng Nghymru¹⁷, sy'n newid sylweddol yn y ffordd rydym yn trin talwyr y dreth. Fodd bynnag, mae rhagor o waith i'w wneud i wella'r ffordd y caiff y dreth gyngor ei chasglu a'i rheoli er mwyn atal problemau gyda dyled rhag gwaethygu.
26. Yn dilyn ymchwil yn 2017¹⁸ rydym wedi bod yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i ganolbwyntio ar y ffordd y caiff dinasyddion sy'n agored i niwed neu ddinasyddion sy'n wynebu anawsterau eu trin. Rydym wedi datgan yn glir y dylai pob awdurdod lleol yng Nghymru roi polisi ar waith sy'n nodi sut y bydd yn ymdrin ag aelwydydd a lleihau'r defnydd o feiliaid. Drwy gydol 2018 aeth CLILC a'r 22 o awdurdodau lleol ati i ddatblygu protocol (*Protocol Treth Cyngor Cymru: Arfer Dda wrth Gasglu Treth y Cyngor*), a gymeradwywyd gan Fwrdd Gweithredol CLILC ar 25 Ionawr 2019.
27. Mabwysiadodd pob un o'r 22 o awdurdodau lleol Brothocol Treth Cyngor Cymru ar 1 Ebrill 2019. Mae hwn yn gyflawniad sylweddol i lywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r protocol yn rhoi canllawiau ar y ffordd y gellir cryfhau partneriaethau lleol â'r sector cynghori ac asiantau gorfodi. Mae'n cynnig camau ymarferol i roi ffocws ar ymgysylltu â threthdalwyr ar gam cynnar er mwyn eu hatal rhag mynd i ddyled. Mae'r protocol hefyd yn amlinellu arferion gorau wrth ymdrin ag aelwydydd sy'n agored i niwed ac yn cydnabod bod rhai arwyddion o fod yn agored i niwed yn fwy amlwg nag eraill. Canfu adroddiad diweddar gan yr Ymddiriedolaeth

¹⁷ Datganiad i'r wasg Llywodraeth Cymru, Ebrill 2019. <https://llyw.cymru/cyflwyno-deddfwriaeth-newydd-ar-y-dreth-gyngor-heddiw>

¹⁸ Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 'Ymchwil i'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn casglu'r dreth gyngor yng Nghymru, Medi 2017. <https://gov.wales/statistics-and-research/local-authorities-approaches-council-tax-debt-recovery/?lang=cy>

Cynghori Ariannol¹⁹ fod arferion casglu dyled awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gwella ers ei hadroddiad diwethaf yn 2017.

28. Rydym yn monitro'r broses o fabwysiadu'r Protocol ac yn troi ein ffocws at gamau gweithredu pellach, gan gynnwys manteision mabwysiadu'r Datganiad Ariannol Safonol. Canfu adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru *Ymateb i Ddinasyddion Sydd Mewn Dyled i Wasanaethau Cyhoeddus*²⁰ dystiolaeth gadarnhaol hefyd o gymorth personol a rhagweithiol a roddwyd drwy bartneriaethau amlasiantaethol. Mae Llywodraeth Cymru, CLILC ac awdurdodau lleol cynrychioliadol wedi sefydlu gweithgor i ystyried unrhyw gamau gweithredu pellach yn fanwl. O ganlyniad i'r gwelliannau hyn, dylai talwyr y dreth gyngor yng Nghymru, ni waeth ble maent yn byw, ddisgwyl cael eu trin yn deg ac yn gyson yn y dyfodol os ydynt yn wynebu risg o ôl-ddyledion treth gyngor neu wedi mynd i ddyled.
29. Ochr yn ochr â'n gwaith ar weinyddu'r dreth gyngor yng Nghymru, mae Llywodraeth y DU wedi bod yn ymgynghori ar *Breathing Space* a chynlluniau ad-dalu dyled statudol. Amcan *Breathing Space* yw rhoi'r hawl i ddiogelwch cyfreithiol i rywun mewn dyled rhag camau gweithredu credydwy'r tra bydd yn cael cyngor ar ddyled ac yn ymrwymo i ateb priodol i'r ddyled. Byddai cynlluniau ad-dalu yn galluogi rhywun mewn dyled i ymrwymo i gytundeb statudol i ad-dalu ei ddyledion yn unol ag amserlen resymol. Byddai unigolion sy'n ymrwymo i gynllun yn cael eu diogelu'n gyfreithiol rhag camau gweithredu gan gredydwy'r tra bydd eu cynllun yn para. Mae'r manylion wrthi'n cael eu datblygu o hyd a, gan fod y cynigion yn ymwneud â materion nas datganolwyd, disgwylir i unrhyw ddeddfwriaeth fod yn gymwys i Gymru. Mae egwyddorion *Breathing Space* yn gyson â'r camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i wella'r ffordd y caiff y broses o gasglu'r dreth gyngor ac ôl-ddyledion ei rheoli yng Nghymru a byddwn yn ymgorffori'r safonau statudol yn y ffordd rydym yn gweithredu wrth iddynt gael eu datblygu.

Monitro premiymau treth gyngor a'r rhestr brisio

30. O dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 rhoddwyd pwerau disgresiwn i awdurdodau lleol yng Nghymru i godi premiwm o hyd at 100% ar anheddau treth gyngor penodol, sef y rhai a ddiffinnir fel cartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi, o 1 Ebrill 2017. Mae'r penderfyniad i gyflwyno premiwm yn fater i bob awdurdod ac mae angen i awdurdodau asesu holl effeithiau posibl cyflwyno premiwm ac ymgynghori â threthdalwyr lleol cyn gwneud hynny. Hyd yma, mae naw awdurdod yng Nghymru

¹⁹ Yr Ymddiriedolaeth Cynghori Ariannol, Medi 2019. <https://www.stoptheknock.org/wp-content/uploads/2019/06/Money-Advice-Trust-Stop-The-Knock-2019-report-September-2019.pdf>

²⁰ Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Chwefror 2019. <https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2019/02/FINAL-WCPP-CYM-Responding-to-citizens-in-debt-to-public-services-A-rapid-evidence-review-2019.pdf>

wedi cyflwyno premiymau ac, o ystyried mai dim ond yn ddiweddar y cyflwynwyd y trefniadau, prin iawn yw'r dystiolaeth o effaith y premiymau.

31. Cyflwynwyd y pwerau i helpu awdurdodau lleol i reoli materion lleol sy'n effeithio ar y cyflenwad o dai yn hytrach nag fel modd i gynhyrchu refeniw. Gall awdurdodau lleol ddefnyddio unrhyw refeniw ychwanegol a dderbynnir at unrhyw ddiben ac maent wedi cael eu hannog i ddefnyddio unrhyw refeniw ychwanegol a gynhyrchir i helpu i ddiwallu anghenion tai lleol. Mae cartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi yn ganran fach o gyfanswm sylfaen drethu cynghorau o fwy na 1.4 miliwn o anheddau. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod premiymau yn cael eu codi ar bron 18,000 o gartrefi yng Nghymru eleni²¹.
32. Wrth i breimiymau treth gyngor ddechrau cael eu cymhwyso, bu awgrymiadau bod rhai perchenogion tai yn ymateb i'r newid polisi drwy geisio rhestru eu heiddo fel llety hunanddarpar, sy'n dod o dan y system ardrethi annomestig yn hytrach na'r dreth gyngor.
33. Gall eiddo sy'n agored i ardrethi annomestig, gan gynnwys safleoedd hunanddarpar, fod yn gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach. Rydym wedi parhau i fonitro'r broses o weithredu'r newidiadau mewn polisi trethiant lleol er mwyn sicrhau bod yr eiddo cywir yn cyfrannu'r swm cywir o dreth.
34. Yn ystod y broses o ddatblygu'r Ddeddf Tai a'r ddeddfwriaeth ategol, gwnaeth Llywodraeth Cymru gryfhau'r meini prawf sy'n gwahaniaethu rhwng anheddau a nodir at ddibenion y dreth gyngor a'r rhai a ddefnyddir fel llety hunanddarpar. Mae'r rheoliadau yn pennu meini prawf gosod gofynnol er mwyn i eiddo gael ei ystyried yn llety hunanddarpar. Mae'n rhaid i'r perchennog allu rhoi tystiolaeth bod ei eiddo wedi bod ar gael i'w osod am o leiaf 140 diwrnod mewn unrhyw gyfnod o 12 mis, a'i fod wedi cael ei osod mewn gwirionedd am o leiaf 70 diwrnod. Mae'r meini prawf yn adlewyrchu'r cyfraniad pwysig y mae llety hunanddarpar yn ei wneud i economi twristiaeth Cymru.
35. Drwy gydol 2019 buom yn gweithio'n agos gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio i gael sicrwydd bod y rhestru prisio treth gyngor ac ardrethi annomestig mor gywir â phosibl. Rydym yn fodlon bod gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio broses ddilysu gadarn ar waith, sy'n seiliedig ar ddogfennaeth gyfreithiol ac sy'n cael ei chynnal gan dîm penodol sy'n gweithio yng Nghymru. Rydym wedi gwahodd awdurdodau lleol i roi unrhyw enghreifftiau o achosion lle mae eiddo wedi'i restru'n anghywir yn eu barn hwy ac mae CLILC wedi hwyluso trafodaethau rhwng Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu am amheuan ynglŷn ag ymddygiad dichellgar gan drethdalwyr. Mae pob

²¹ Anheddau sy'n destun Treth Gyngor yng Nghymru 2019-20, Llywodraeth Cymru, Ionawr 2019
<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Local-Government/Finance/Council-Tax/Dwellings>

un o'r achosion a rannwyd ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi bod yn ddefnydd dilys o lety hunanddarpar wedi'i ategu gan dystiolaeth ddigonol.

36. Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd y mater hwn o ddifrif. Mae Gweinidogion Cymru wedi codi'r mater gydag arweinwyr llywodraeth leol yn Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru. Cyflwynwyd y darpariaethau yn y Ddeddf Tai fel adnodd i helpu awdurdodau lleol i reoli problemau o ran y cyflenwad lleol o dai. Byddwn yn cynnal rhagor o drafodaethau ar faterion lleol ac effeithiolrwydd y newidiadau mewn trethiant lleol. Bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn parhau i herio unrhyw amheuan o ymddygiad dichellgar ac ymchwilio iddynt.

Gwella'r broses o rannu gwybodaeth a gallu data

37. Drwy gydol 2019 rydym wedi parhau i ddatblygu ein trefniadau rhannu data gyda'r awdurdodau lleol ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Mae prosesau ychwanegol ar gyfer casglu a dilysu data wedi arwain at welliant amlwg yn rhychwant ac ansawdd y wybodaeth sydd ar gael i gefnogi'r broses o lunio polisi. Parheir i ystyried cyfleoedd newydd i rannu data er mwyn cefnogi'r agenda trethiant lleol eang ei chwmpas.

Fframwaith cyllid ehangach i lywodraeth leol

38. Mae trethi lleol yn cyfrannu tua thraean o'r cyllid ar gyfer gwariant refeniw lleol ac ni ellir eu gwahanu oddi wrth ein strategaeth ehangach ar gyfer y cyllid craidd a ddarparwn. Mae llawer o'r newidiadau a amlinellir yn y ddogfen hon yn effeithio ar y fframwaith ehangach, er enghraifft, dosbarthiad y Grant Cynnal Refeniw, trefniadau llywodraethu ariannol ac atebolrwydd lleol.
39. Mae'r Is-grŵp Dosbarthu, sef is-grŵp technegol i'r Cyngor Partneriaeth, yn datblygu'r fethodoleg gyllido ar gyfer setliadau llywodraeth leol blynyddol. Lle y bo angen, mae'r grŵp wedi ystyried, neu bydd yn ystyried, goblygiadau unrhyw newidiadau a ddisgrifir yn y ddogfen hon ar y ffordd y dosberthir y Grant Cynnal Refeniw.
40. Ar ddechrau'r rhaglen waith hon, gwnaethom nifer o newidiadau ar unwaith er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i lywodraeth leol. Ym mis Ebrill 2018, gwnaethom estyn hyblygrwydd llywodraeth leol i ddefnyddio derbyniadau cyfalaf i gyllido buddsoddiad mewn gweithgareddau trawsnewid am dair blynedd arall hyd at 2021. Rydym hefyd wedi llacio'r cyfyngiadau ar drafodion cyfalaf benthyg, trafodion cyfalaf cyfranddaliadau a bondiau, gan roi awdurdodau yng Nghymru yn yr un sefyllfa ag awdurdodau lleol yn Lloegr.

41. Disgrifir mwy o newidiadau i'r ffordd y caiff gwasanaethau lleol eu darparu, er enghraifft, drwy ddarparu gwasanaethau mewn ffordd fwy cydweithredol a datblygu'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Diwygiadau tymor canolig

42. Mae'r cam hwn yn cynnwys y newidiadau i gyflawni ein nodau a'n hymrwymadau sy'n gofyn am fwy o amser i'w hystyried a'u cyflwyno, ac am ddarpariaeth ddeddfwriaethol newydd o bosibl. Mae'n bosibl y bydd yn cymryd mwy nag un tymor Cynulliad i roi newidiadau o'r fath ar waith.

Treth gyngor deg a graddoledig

Asesu effaith y diwygiadau lles

43. Mae Credyd Cynhwysol Llywodraeth y DU yn disodli'r rhan fwyaf o fudd-daliadau nawdd cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag incwm a chredydau treth i bobl o oedran gweithio ac mae bellach yn cael ei gyflwyno ledled y DU. Mae tystiolaeth wedi dod i'r golwg bod y diwygiadau hyn yn cael effaith niweidiol ar aelwydydd mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys meysydd polisi datganoledig megis cymorth i dalu'r dreth gyngor, tai cymdeithasol a dyled aelwydydd²². Er bod un o fwriadau'r diwygiadau lles i gynnig mwy o gymhellion i weithio yn gadarnhaol, ni all fod yn briodol bod penderfyniadau a wneir yng nghyd-destun y DU ym maes lles yn cael effaith ar drethiant lleol a meysydd polisi datganoledig eraill yng Nghymru.

44. Yn ystod y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol, daeth yn amlwg bod rhai nodweddion ar ei weinyddiaeth yn cael effaith niweidiol ar rai aelwydydd, er enghraifft, awgryma peth tystiolaeth fod yr oedi cyn cael y taliad cyntaf, a'r ffaith bod yr elfen tai yn cael ei thalu'n uniongyrchol i'r tenant yn hytrach na'r landlord yn arwain at fwy o ôl-ddyledion rhent^{23,24}. Canfu ymchwil gan Ganolfannau Cyngor ar Bopeth fod pobl sy'n cael Credyd Cynhwysol yn fwy tebygol o fod â dyledion blaenoriaethol (megis ôl-ddyledion y dreth gyngor ac ôl-ddyledion rhent) na'r rhai a oedd yn cael yr hen fudd-daliadau²⁵. Ym mis Mehefin 2018, nododd Cartrefi Cymunedol Cymru fod tenantiaid cymdeithasau tai yng Nghymru a oedd yn cael Credyd Cynhwysol eisoes wedi cronni ôl-ddyledion rhent gwerth dros £1 filiwn²⁶.

45. Oherwydd y ffordd y mae agweddau ar y cymorth i dalu'r dreth gyngor yn adlewyrchu meini prawf cymhwysedd ar gyfer budd-daliadau'r DU, rydym yn

²² Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Mehefin 2018. <https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2018/06/Rolling-out-Universal-Credit.pdf>

²³ Pwyllgor Gwaith a Phensiynau Tŷ'r Cyffredin, Hydref 2017.

<https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmworpen/336/336.pdf>

²⁴ Llywodraeth Cymru, Mawrth 2019. <https://lyw.cymru/effaith-diwygiadau-lles-ar-aelwydydd-yng-nghymru>

²⁵ Cyngor ar Bopeth, Medi 2017.

<https://www.citizensadvice.org.uk/Global/CitizensAdvice/welfare%20publications/Universal%20Credit%20and%20Debt%20-%20final.pdf>

²⁶ Cartrefi Cymunedol Cymru, Mehefin 2018. <https://chcymru.org.cy/view-news/welsh-social-housing-tenants-on-universal-credit-in-over-1-million-worth-of/>

dechrau gweld effaith niweidiol ledled Cymru wrth i Gredyd Cynhwysol gael ei gyflwyno. Mae Credyd Cynhwysol yn lleihau'n uniongyrchol nifer yr achosion sy'n trosglwyddo'n awtomatig, gan wneud y broses gwneud cais yn fwy cymhleth i aelwydydd cymwys a'i gwneud yn fwy anodd i awdurdodau lleol gysylltu ag aelwydydd yn rhagweithiol. Mae awdurdodau lleol yn colli gwybodaeth, gan nad yw elfen tai'r Credyd Cynhwysol, yn wahanol i'r Budd-dal Tai, yn cael ei gweinyddu gan awdurdodau lleol.

46. Ar adeg cyhoeddi ein diweddariad blaenorol roeddem yn ceisio cymorth arbenigol i'n helpu i ddeall effeithiau Credyd Cynhwysol ar deuluoedd ledled Cymru yn fanylach, yn enwedig ar gymhwysedd ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, lefelau ôl-ddyledion treth gyngor ac ôl-ddyledion rhent tai. Ym mis Ionawr 2019 comisiynwyd Policy in Practice gennym i gynnal astudiaeth gynhwysfawr dros flwyddyn. Mae'r prosiect yn cynnwys cryn dipyn o waith dadansoddi data er mwyn olrhain amgylchiadau aelwydydd yng Nghymru wrth iddynt symud o'r hen fudd-daliadau i Gredyd Cynhwysol. Ategir y gwaith empirig gan waith ymchwil ansoddol newydd i brofiadau ymgeiswyr, tenantiaid, gwasanaethau cynghori, awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a landlordiaid preifat. Oherwydd hyd y prosiect ymchwil gall Policy in Practice ymchwilio i'r effeithiau uniongyrchol wrth i fwy o hawlwr symud i Gredyd Cynhwysol yn ystod 2019.
47. Mewn ymateb i'r dystiolaeth gynyddol, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi newid Credyd Cynhwysol sawl gwaith yn ystod y broses o'i gyflwyno, gyda'r nod o roi cymorth i grwpiau sy'n agored i niwed a'u helpu i symud o'r hen fudd-daliadau i Gredyd Cynhwysol. Mae Trefniadau Taliadau Amgen yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gael o dan amgylchiadau penodol er mwyn i'r elfen tai gael ei thalu'n uniongyrchol i'r landlord, ond mae'r ymwybyddiaeth o'r trefniadau hyn yng Nghymru yn anghyson²⁷. Mae mathau eraill o gymorth ar gael hefyd o dan Gredyd Cynhwysol, gan gynnwys Cymorth Cyllidebu Personol a Chymorth Digidol. Bydd ein hymchwil yn ystyried ymwybyddiaeth o'r rhain a'r gallu i gael gafael arnynt er mwyn sicrhau ein bod yn deall profiad gwirioneddol aelwydydd yng Nghymru. Gall hyn amlygu meysydd lle y gallai Llywodraeth Cymru gymryd camau ychwanegol i roi cymorth.
48. Cyn hir, byddwn yn cyhoeddi'r Adroddiad Interim ar ymchwil Policy in Practice ar wefan Llywodraeth Cymru. Bydd yn canolbwyntio ar effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae hon yn wybodaeth hollbwysig i Lywodraeth Cymru oherwydd mae'n bosibl y bydd modd inni ddiwygio Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn y dyfodol, os oes angen, er mwyn lliniaru effeithiau negyddol ar grwpiau penodol o bobl (fel y nodir ym mharagraff 49).

²⁷ Cyngor ar Bopeth, Gorffennaf 2017.

<https://www.citizensadvice.org.uk/Global/CitizensAdvice/welfare%20publications/Delivering%20on%20Universal%20Credit%20-%20report.pdf>

Bydd adroddiad terfynol gan Policy in Practice ar gael ar ddechrau 2020, a fydd yn cynnwys rhagor o waith dadansoddi ac ymchwil ansoddol i ôl-ddyledion a mynediad at fathau eraill o gymorth. Bydd y canfyddiadau yn helpu i lywio'r broses gwneud polisi yn y dyfodol mewn sawl un o feysydd Llywodraeth Cymru.

Datblygu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

49. Rydym wedi gofyn i Policy in Practice fodelu chwe newid posibl i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor:

- newid cyfradd tapro cymorth i dderbynwyr rhannol;
- newidiadau i'r terfyn dau blentyn i deuluoedd;
- cyflwyno isafswm dyfarniad gwarantedig;
- newid didyniadau i'r rhai nad ydynt yn ddibynyddion;
- gostwng yr Isafswm Terfyn Incwm tybiannol a ddefnyddir i gyfrifo ar gyfer hawlwyd hunangyflogedig sy'n cael Credyd Cynhwysol;
- cyflwyno cynllun bandiau incwm.

50. Rydym wedi ystyried y syniadau hyn gydag awdurdodau lleol a CLILC am ei bod yn bwysig casglu safbwyntiau'r rhai sy'n gweinyddu'r cynllun er mwyn sicrhau y byddai unrhyw newidiadau yn gyflawnadwy ac na fyddent yn arwain at unrhyw ganlyniadau anfwriadol eraill. Oherwydd faint o amser sydd ei angen i ddrafftio newidiadau i Reoliadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac ymgynghori arnynt, rhagwelir y byddai'r newidiadau uchod (os byddant yn ddichonadwy) yn cael eu cyflwyno yn 2021-22 neu ar ôl hynny.

Helpu busnesau i ffynnu

Rhyddhad ardrethi yn y dyfodol

51. Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi symiau sylweddol bob blwyddyn (dros £230m eleni) mewn cynlluniau rhyddhad ar gyfer ardrethi annomestig, gan sicrhau cydbwysedd cynnil rhwng cynnal referniw ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a chefnogi dewisiadau polisi ehangach. Mae angen inni sicrhau drwy'r amser bod ein buddsoddiad ariannol mewn rhyddhad yn cyrraedd y rhai y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cynorthwyo.

52. Rydym yn ystyried sut y gallai'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach weithredu yn y dyfodol, ar ôl y gwelliannau a wnaed gennym yn 2017 a 2018. Bydd Arolwg Omnibws Cymru nesaf Beaufort Research yn cynnwys cwestiynau ychwanegol er mwyn ein helpu i asesu effeithiolrwydd rhyddhad ardrethi, a yw'n helpu i ysgogi twf busnesau mewn gwirionedd a sut mae'n dylanwadu ar benderfyniadau busnesau. Rydym hefyd yn cynnal adolygiad o newid i'r Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach a wnaed yn 2018 i roi terfyn ar nifer yr eiddo

sy'n gymwys i gael rhyddhad i ddau fesul busnes ym mhob awdurdod lleol. Gobeithio y bydd yr adolygiad hwn yn ein helpu i ddeall effeithiolrwydd y newid polisi a llywio dewisiadau yn y dyfodol ar gyfer y Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach.

53. Bydd y meysydd ymchwil hyn yn ein helpu i ystyried newidiadau mwy sylweddol i'r ffordd rydym yn ymdrin â rhyddhad, er enghraifft, nodweddion terfyn amser neu dargedu fwy tuag at weithgarwch economaidd, sy'n fwy cyson ag amcanion Llywodraeth Cymru. Bydd y syniadau hyn yn cael eu hystyried ar ôl 2019.

Cefnogi sectorau hollbwysig

54. Mae sector gofal plant cynaliadwy yng Nghymru yn ffactor galluogi allweddol ar gyfer twf economaidd drwy helpu rhieni a gofalwyr gael cyflogaeth ac aros mewn cyflogaeth. Yn sgil cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru yn ystod hydref 2018²⁸ cyflawnwyd ein hymrwymiad i roi rhyddhad ardrethi o 100% i safleoedd gofal plant ar 1 Ebrill eleni drwy'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach. Mae'r newid hwn yn rhoi £7.5m ychwanegol i leihau biliau i ddim ar gyfer pob darparwr gofal plant cofrestredig am gyfnod o dair blynedd. Mae'r penderfyniad hwn yn cefnogi ein prif adduned yn *Symud Cymru Ymlaen* i gynnig 30 awr o ofal plant am ddim i rieni plant 3 a 4 oed sy'n gweithio, am 48 wythnos o'r flwyddyn. Mae'r cynnig yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd a bydd ar gael ledled Cymru erbyn 2020.
55. Bydd lleihau biliau ardrethi annomestig ar gyfer safleoedd gofal plant yn helpu i greu lleoedd gofal plant newydd yng Nghymru a'u cynnal. Rydym yn ddiolchgar i lywodraeth leol, CLILC a darparwyr am helpu i gyflwyno newidiadau i ardrethi annomestig yn gyflym ac yn llwyddiannus. Caiff effaith y cynllun rhyddhad hwn ei hadolygu maes o law.

Y Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach a pheiriannau ATM

56. Er ei bod yn bwysig bod cynlluniau rhyddhad yn seiliedig ar feini prawf penodol iawn, weithiau gall hyn gwmpasu talwyr ardrethi neu eiddo na fwriadwyd rhoi rhyddhad rhag talu ardrethi iddynt. Mae ardrethi annomestig yn gymwys i'r rhan fwyaf o fathau o hereditament annomestig. Mae hyn yn cynnwys eiddo o dan berchenogaeth gyhoeddus ac eiddo a ddefnyddir at ddibenion megis parcio, hawliau hysbysebu, mastiau telathrebu a pheiriannau ATM. Mae Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach, fel y mae'n gweithredu yng Nghymru, yn eithrio rhai mathau o hereditament rhag bod yn gymwys am nad ydynt yn 'fusnesau bach' y bwriedir i'r rhyddhad roi cymorth iddynt. Mae'r eithriadau yn cynnwys meysydd

²⁸ Datganiad Llywodraeth Cymru, Medi 2018.

<https://llyw.cymru/100-rhyddhad-ardrethi-i-bob-darparwr-gofal-plant-yng-nghymru>

parcio, hawliau hysbysebu (e.e. hysbysfyrddau) a chyfarpar cyfathrebu electronig. Mae eiddo cyhoeddus hefyd wedi'i eithrio.

57. Ym mis Ionawr 2018, cyflwynwyd her gyfreithiol yn erbyn Cyngor Sir Penfro am beidio â rhoi Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach ar gyfer safleoedd ATM penodol yn y sir.²⁹ Dyfarnodd y llys o blaid Cardtronics UK Ltd ar y sail nad yw peiriannau ATM yn gyfarpar cyfathrebu electronig ym marn y llys. O ganlyniad i'r dyfarniad hwn, gall peiriannau ATM sy'n bodloni'r meini prawf perthnasol fod yn gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach.

58. Pan sefydlodd Llywodraeth Cymru ei chynllun rhyddhad i fusnesau bach, nododd yn glir na fwriadwyd i'r polisi roi rhyddhad ar gyfer cyfarpar megis peiriannau ATM. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn o hyd nad busnesau bach y bwriedir i'r cynllun rhyddhad eu cefnogi yw peiriannau ATM. Felly, rydym wedi ymgynghori ar Orchymyn drafft i ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn rhoi eglurder ynghylch cymhwysedd³⁰. Byddai'r diwygiadau yn sicrhau nad yw eiddo annomestig a ddefnyddir fel peiriannau ATM yn unig yn cael rhyddhad ardrethi o 1 Ebrill 2020. Mae pwerau disgresiwn ar gael o hyd, os oes angen, i roi rhyddhad ar gyfer peiriannau ATM unigol o werth penodol i gymunedau penodol.

Ysgolion annibynnol ac ysbytai preifat

59. Edrychodd Adolygiad Barclay³¹ o'r system ardrethi annomestig yn yr Alban yn 2017 yn fanwl ar briodoldeb rhoi rhyddhad ardrethi i amrywiol sectorau a busnesau â nodweddion gwahanol. Un o argymhellion yr adolygiad oedd mynd i'r afael â chystadleuaeth annheg o bosibl rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat wrth ddarparu gwasanaethau tebyg. Ers yr adolygiad yn 2017 mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ystyried a yw'n briodol i ddarparu'r gwasanaethau tebyg yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat gael eu trin yn wahanol mewn perthynas â rhyddhad ardrethi. Gwnaethom ymrwymo i ymgynghori cyn diwedd 2019 ar gynigion i newid cymhwysedd ysgolion annibynnol ac ysbytai preifat i gael rhyddhad ardrethi, er mwyn iddynt gael eu trin yn unol ag ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth ac ysbytai'r GIG, sy'n agored i dalu ardrethi annomestig.

60. Mae rhwymedigaeth ar y rhan fwyaf o ysgolion ac ysbytai'r wladwriaeth i dalu ardrethi annomestig ar yr eiddo a feddiannir ganddynt, a hefyd ar amrywiaeth eang o sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. Mae'r ardrethi a delir yn gwneud

²⁹ *Cardtronics UK Limited v Cyngor Sir Penfro* [2018] EWHC 1167.

³⁰ Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, Medi 2019.

<https://llyw.cymru/gorchymyn-ardrethu-annomestig-rhyddhad-ardrethi-i-fusnesau-bach-cymru-diwygio-2019>

³¹ Adolygiad Barclay o ardrethi annomestig, Awst 2017. <https://www.gov.scot/publications/report-barclay-review-non-domestic-rates/>

cyfraniad pwysig tuag at gostau'r gwasanaethau a ddarperir yn ein cymunedau. Fodd bynnag, gall llawer o sefydliadau annibynnol gael rhyddhad elusennol rhag ardrethi. Credwn ei bod yn deg disgwyl i sefydliadau annibynnol wneud cyfraniad at gost gwasanaethau lleol drwy dalu ardrethi ar yr eiddo a feddiannir ganddynt. Byddwn yn ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn gwneud rhagor o gyhoeddiadau maes o law.

Rhyddhad ar gyfer toiledau cyhoeddus

61. Ym mis Mehefin 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn bwriadu eithrio adeiladau toiledau cyhoeddus pwrpasol yng Nghymru rhag talu ardrethi annomestig o 1 Ebrill 2020.³² Y bwriad oedd cyflwyno'r eithriad newydd drwy ddeddfwriaeth gan Lywodraeth y DU; fodd bynnag, fe wyddom erbyn hyn y bydd Etholiad Cyffredinol yn cael ei gynnal ddiwedd y flwyddyn hon. Mae'n dal yn fwiad gan Lywodraeth Cymru ddod o hyd i gyfle deddfwriaethol i gyflwyno'r eithriad hwn rywbryd yn y dyfodol. Mae'r penderfyniad polisi hwn yn cefnogi ein hymrwymiad i roi mynediad at doiledau at ddefnydd y cyhoedd o dan Ran 8 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, er mwyn helpu i gadw cyfleusterau yn agored i drigolion ac ymwelwyr yng Nghymru.

Gwella'r ffordd y gweinyddir ardrethi annomestig a chydymffurfiaeth â nhw

Ymarfer ailbrisio ardrethi annomestig

62. Mae ymarferiadau ailbrisio rheolaidd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gwerthoedd ardrethol eiddo sy'n agored i dalu ardrethi annomestig yn adlewyrchu amodau diweddar y farchnad. Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n cynnal yr ymarfer ailbrisio nesaf ar gyfer ardrethi annomestig yn Lloegr yn gynt (yn 2021 yn lle 2022 yn ôl y bwriad gwreiddiol). Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n cynnal yr ymarfer ailbrisio yng Nghymru yn 2021 hefyd.³³

63. Mae gwaith yn mynd rhagddo i baratoi ar gyfer yr ymarfer sylweddol hwn, sy'n cael ei gynnal yn annibynnol gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Cadarnhawyd mai 1 Ebrill 2019 yw'r Dyddiad Prisio Rhagflaenol (dyddiad cyffredin y mae pob prisiad yn cyfeirio ato yn seiliedig ar amodau'r farchnad) ac mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio wrthi'n ailbrisio pob eiddo erbyn mis Ebrill 2021.

64. Daeth ymgynghoriad technegol ar y 'gyfradd ddatgyfalafu' i'w mabwysiadu ar gyfer yr ymarfer ailbrisio yn 2021 yng Nghymru i ben ar 30 Mai 2019 a

³² Datganiad Llywodraeth Cymru, Mehefin 2019.

<https://llyw.cymru/rhyddhad-ardrethi-ar-gyfer-adeiladau-toiledau-cyhoeddus-yng-nghymru>

³³ Datganiad Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2018. <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-ailbrisio-ardrethi-annomestig>

chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ar 4 Medi 2019.³⁴ Mae angen cyfraddau datgyfalafu i brisio eiddo lle nad oes unrhyw werthoedd rhentu ar y farchnad cymaradwy yn bodoli, er enghraifft, ysbytai a phurfeydd olew.

65. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio i asesu effaith yr ymarfer ailbrisio nesaf ar dalwyr ardrethi unigol. Bydd yn ystyried, ar yr adeg briodol, a oes angen cymorth i helpu talwyr ardrethi sy'n wynebu cynnydd sylweddol yn eu biliau o ganlyniad i'r ailbrisiad ac, os felly, pa fath o gymorth y gellid ei roi.

Diwygio apeliadau yn erbyn ardrethi annomestig

66. Mae system hirsefydledig ar waith i ymdrin ag apeliadau yn erbyn prisiadau o ardrethi annomestig yng Nghymru. Mae wedi sefyll prawf amser ond mae lle i'w gwella ac mae angen moderneiddio'r system er mwyn sicrhau ei bod mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

67. Yn sgil newidiadau i'r system apelio yn Lloegr ym mis Ebrill 2017 (y gweithdrefnau Gwirio, Herio, Apelio newydd), mae opsiynau ar gyfer diwygio'r system apelio yng Nghymru yn cael eu hystyried. Esboniodd ein hymgyngghoriad yn 2018³⁵ yr achos dros ddiwygio a gofynnodd i ymatebwyr roi barn ar y newidiadau arfaethedig i agweddau ar y system apelio yng Nghymru, megis gofynion cofrestru, terfynau amser, ôl-ddyddio, ffioedd a chosbau. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn cael ei defnyddio i lywio newidiadau deddfwriaethol a gweinyddol gyda'r nod o wella'r system yng Nghymru. Bwriadwn gyflwyno unrhyw newidiadau ochr yn ochr â'r ymarfer ailbrisio, yn weithredol o 1 Ebrill 2021. Rydym yn gweithio'n agos gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio a nifer o randdeiliaid i lunio system apelio sy'n addas ar gyfer anghenion penodol talwyr ardrethi Cymru a gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Byddwn yn gwneud rhagor o gyhoeddiadau maes o law.

Achosion o dwyll ac osgoi talu ardrethi annomestig

68. Ym mis Hydref 2018 amlinellodd Llywodraeth Cymru gyfres o fesurau i leihau nifer yr achosion o dwyll ac osgoi talu ardrethi annomestig³⁶. Amcangyfrifir bod swm o tua £10-20m yn cael ei golli bob blwyddyn. Daeth y cyhoeddiad hwn yn

³⁴ Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, Mawrth 2019.

<https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-03/dogfen-ymgyngghori.pdf>

³⁵ Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, Ionawr 2018.

<https://llyw.cymru/diwygior-system-apelio-ar-gyfer-ardrethi-annomestig-yng-nghymru>

³⁶ Mynd i'r afael â thwyll ac osgoi talu ardrethi annomestig yng Nghymru <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-mynd-ir-afael-thwyll-ac-osgoi-talu-ardrethi-annomestig-yng-nghymru>

sgil ymchwiliad ar y cyd ag awdurdodau lleol ers 2015 ac ymgynghoriad ffurfiol yn 2018³⁷. Mae'r mesurau arfaethedig yn cynnwys:

- Dyletswyddau ar dalwyr ardrethi i roi gwybod am newid yn eu hamgylchiadau a fyddai'n effeithio ar eu hatebolrwydd i dalu ardrethi;
- Pwerau i awdurdodau lleol ofyn am wybodaeth gan dalwyr ardrethi a thrydydd partïon â diddordeb;
- Pwerau i awdurdodau lleol fynd i mewn i eiddo annomestig a'i archwilio er mwyn dilysu gwybodaeth a fyddai'n cynorthwyo'r broses bilio a chasglu;
- Trefniadau ar gyfer newid rhyddhad ar eiddo gwag;
- Gofyn i awdurdodau lleol gyhoeddi rhestr o dalwyr ardrethi sy'n cael rhyddhadau er tryloywder;
- Lleihau'r achosion o gam-hawlio rhyddhad elusennol er mwyn sicrhau mai dim ond elusennau dilys a gynorthwyr;
- Ystyried y Rheol Gyffredinol yn Erbyn Osgoi Trethi ar gyfer trethi lleol yng Nghymru yn y dyfodol (gan nodi bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyflwyno rheolau cyffredinol a rheolau wedi'u targedu yn erbyn osgoi trethi ar gyfer y dreth trafodiadau tir);
- Gwell cydweithredu rhwng sefydliadau, rhannu arferion gorau ymhlith awdurdodau lleol a gwella ein canllawiau i dalwyr ardrethi.

69. Bwriadwn i'r mesurau hyn ddod yn weithredol ar 1 Ebrill 2021 i gyd-daro â'r rhestr ardrethu nesaf ar ôl yr ymarfer ailbrizio, heblaw am ddatblygu Rheol Gyffredinol ar Osgoi Trethi sy'n newid mwy sylfaenol y bydd angen ei ystyried yn nhymor nesaf y Cynulliad.

70. Yn 2019, canolbwyntiwyd ein hymdrechion ar ddatblygu'r darpariaethau deddfwriaethol manwl y bwriadwn eu cynnwys yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Mae'r rhain yn cwmpasu dyletswyddau newydd ar dalwyr ardrethi i roi gwybod am newid yn eu hamgylchiadau, pwerau i awdurdodau lleol ofyn am wybodaeth a phwerau i awdurdodau lleol archwilio eiddo annomestig. Mae'r darpariaethau deddfwriaethol yn cynnwys y mesurau diogelu angenrheidiol, megis hawliau apêl, er mwyn sicrhau bod unigolion dilys yn cael eu diogelu.

71. Rydym hefyd yn datblygu diwygiadau i'r Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo Heb ei Feddiannu) (Cymru) er mwyn lleihau nifer yr achosion o gam-hawlio rhyddhad ar eiddo gwag, sef y ffordd fwyaf cyffredin o osgoi ardrethi. Bwriadwn wneud hyn drwy gynyddu'r cyfnod meddiannu dros dro sydd ei angen ar gyfer hawliadau olynol am ryddhad, o 6 wythnos o feddiannu dros dro i 6 mis. Yn ystod y cyfnod hwnnw bydd ardrethi llawn yn daladwy. Rydym hefyd yn datblygu meini

³⁷ Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2018.

<https://llyw.cymru/mynd-ir-afael-ag-achosion-o-osgoi-ardrethi-annomestig-yng-nghymru>

prawf ar gyfer yr hyn sy'n cyfrif fel 'meddiannu' o dan y rheoliadau. Gobeithir y bydd hyn yn lleihau'r cymhellion ariannol i gam-hawlio rhyddhad ac y bydd yn fwy anodd i'r rhai sy'n osgoi ardrethi i ddyfeisio trefniadau artiffisial sy'n edrych yn debyg i feddiannu.

72. Ni ellid bod wedi cyflawni'r datblygiadau hyn heb waith swyddogion awdurdodau lleol, Asiantaeth y Swyddfa Brisiog na chynrychiolwyr busnes drwy amrywiol drefniadau ymgynghori. Mae cryn dipyn o waith pellach i'w wneud er mwyn rhoi'r gwahanol fesurau ar waith. Cyn cyflwyno'r newidiadau ym mis Ebrill 2021 byddwn yn codi ymwybyddiaeth ymhlith y gymuned fusnes er mwyn sicrhau bod talwyr ardrethi, asiantau a chyrff cynrychioliadol yn barod ar gyfer y gofynion newydd.

Datblygu fframwaith cyllido sy'n fodd i drawsnewid gwasanaethau

73. Mae'r fframwaith cyllido gwerth biliynau o bunnoedd sy'n sail i ddarparu gwasanaethau lleol yn system gymhleth a chydgyssylltiedig o elfennau gwahanol. Mae Llywodraeth Cymru bob amser wedi ymdrechu i roi'r setliad ariannol gorau i lywodraeth leol ag y gall, dros fwy na degawd o gyni cyllidol Llywodraeth y DU, a hefyd geisio rhoi'r adnoddau sydd eu hangen ar lywodraeth leol i ateb heriau galw cynyddol a chostau gwasanaethau lleol. Mae mwy o gydweithio, bargeinion dinesig a thwf sy'n datblygu a diwygio'r sector cynghorau cymuned a thref ymhlith rhai o'r diwygiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol inni sicrhau bod y fframwaith cyllido a threthu lleol yn parhau i ddiwallu anghenion darpariaeth gwasanaethau lleol.

Bil Llywodraeth Leol

74. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) i broses deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol agos. Bydd yn darparu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer cydweithio rhwng awdurdodau lleol, ac uno gwirfoddol pe bai unrhyw awdurdodau am wneud hyn yn y dyfodol. Bydd hefyd yn rhoi'r adnoddau i awdurdodau lleol asesu a gwella eu perfformiad eu hunain yn barhaus. Wrth ddatblygu'r Bil, rydym wedi cydnabod y trefniadau rhanbarthol sydd eisoes yn bodoli ar gyfer rhai gwasanaethau lleol mewn rhai rhannau o Gymru fel y rhai sy'n datblygu wrth i ddatblygiadau eraill, megis bargeinion dinesig a thwf, ymsefydlu. Drwy sicrhau cysondeb yn y ffordd y caiff y trefniadau hyn eu llywodraethu bydd modd gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r gwahanol wasanaethau a'r rhyngweithio â nhw.

75. Bydd y Bil yn darparu'r pwerau deddfwriaethol galluogi ond bydd y manylion gweithredol yn cael eu cyd-gynhyrchu â llywodraeth leol drwy'r broses o ddatblygu'r rheoliadau ategol. Mae'r ymrwymiad gan arweinwyr awdurdodau lleol, CLILC ac eraill i'r dull gweithredu hwn yn gyflawniad pwysig yn ein partneriaeth

hirsefydledig. Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru yw'r fforwm priodol ar gyfer ymgynghori ar y trefniadau cyllido yn y dyfodol.

Bargeinion dinesig a thwf

76. Bydd y gwaith i ysgogi bargeinion dinesig a thwf mewn rhanbarthau yng Nghymru yn cyfrannu at dwf economaidd, cadernid ariannol a gwell gwasanaethau cyhoeddus. Mae pob borgen yn cael ei datblygu fel ffordd unigryw o gynhyrchu twf sy'n adlewyrchu natur y rhanbarth. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwahodd pob rhanbarth i gyflwyno cynigion ar gyfer rhannu buddiannau unrhyw dwf mewn ardrethi annomestig a all ddeillio o'i weithredoedd. Fodd bynnag, caiff yr holl refeniw ardrethi annomestig a godir yng Nghymru ei ddosbarthu i awdurdodau lleol er mwyn helpu i ariannu gwasanaethau lleol. Er bod angen teilwra'r trefniadau cyllido ar gyfer pob borgen yn unol â natur y fargen, mae angen hefyd inni sicrhau nad oes effaith andwyol ar gyllid awdurdodau lleol eraill. Rydym yn gweithio gyda phob un o'r rhanbarthau i ddatblygu'r trefniadau hyn ac ystyried pa fath o hyblygrwydd ariannol arall a allai eu helpu i sicrhau newid sylweddol mewn twf economaidd rhanbarthol.

Diwygiadau hirdymor i drethi lleol

77. Roedd ein rhaglen ar gyfer diwygio cyllid llywodraeth leol wedi nodi o'r cychwyn ein bwriad i ystyried dulliau cwbl wahanol o godi refeniw o drethi lleol. Mae'r adran hon yn amlinellu cynnydd tuag at y nod hwn ers y diweddariad diwethaf ym mis Hydref 2018. Er mwyn gwireddu unrhyw un o'r syniadau canlynol byddai angen deddfwriaeth sylfaenol newydd sylweddol a byddai angen eu rhoi ar waith dros fwy nag un tymor Cynulliad. Un o'r prif egwyddorion sy'n sail i'n hystyriaethau yw edrych ar y ffordd y gallai dulliau amgen wella dosbarthiad yr atebolrwydd i dalu trethi rhwng trethdalwyr yn hytrach na cheisio codi mwy o refeniw.

78. Ar ôl adolygu'r llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes yn 2017, aethom ati i ystyried pa syniadau y dylid edrych arnynt yn fanylach ac ym mha ffordd. Mae llawer o'r casgliadau am y dulliau amgen yn awgrymu bod angen cyfaddawdu rhwng canlyniadau megis ymreolaeth leol, twf economaidd a chydaddoldeb cymdeithasol, heb unrhyw farn gyffredin ar yr hyn sydd orau o ran anghenion ac amgylchiadau Cymru. Gwelsom fod bylchau yn y llenyddiaeth a'r corff o wybodaeth wrth inni geisio cymhwyso'r gwahanol syniadau at Gymru ac yn enwedig at drethi lleol.

79. Yn 2018, datblygwyd dull o gael ymchwil newydd mewn ymgynghoriad â Gweithgor Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol a grwpiau rhanddeiliaid eraill. Yn ystod 2019, mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau, rydym yn cyflawni'r casgliad canlynol o brosiectau:

- Prifysgol Bangor – y potensial ar gyfer treth gwerth tir leol yn lle'r trethi lleol presennol;
- Sefydliad Astudiaethau Cyllid – ailbrisiad damcaniaethol o sylfaen drethu'r dreth gyngor yng Nghymru ac opsiynau polisi ar gyfer strwythur bandio mwy graddoledig neu ddiwygiadau mwy sylfaenol i'r dreth gyngor;
- Prifysgol Sheffield – gwaith modelu cydategol ar ailbrisio ar gyfer y dreth gyngor;
- I'w gadarnhau (cynigion yn cau 28 Hydref) – y potensial i dreth newydd yn lle'r dreth gyngor fod yn seiliedig ar asesiadau o incwm aelwydydd.

80. Rydym yn glir bod yn rhaid i'r ymchwil newydd ganolbwyntio ar oblygiadau ymarferol y dulliau amgen yn hytrach nag ailgyflwyno theori sy'n bodoli eisoes. Trafodir rhai canfyddiadau cychwynnol isod a chaiff adroddiadau unigol eu cyhoeddi'n llawn maes o law.

81. Yn ogystal â bod yn unol ag egwyddorion treth strategol Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i unrhyw ddull amgen o godi trethi lleol godi cyllid ar gyfer

llywodraeth leol mewn ffordd sefydlog a rhagweladwy, gan mai hon yw'r sail ddeddfwriaethol a chyfansoddiadol dros fodolaeth trethi lleol o fewn y setliad datganoledig presennol. Mae angen i'r dulliau amgen fod yn amlwg well na'r trefniadau presennol, nid dim ond yn wahanol.

Trethi gwerth tir lleol

82. Ers ein diweddariad diwethaf cafwyd rhagor o ystyriaeth wleidyddol o drethi a dulliau cyllido eraill sy'n seiliedig ar werth tir. Cyhoeddodd y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Gasglu Gwerth Tir ei ymchwiliad ym mis Tachwedd 2018³⁸ yn fuan ar ôl i Bwyllgor Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol Tŷ'r Cyffredin gyhoeddi ei ymchwiliad yntau i gasglu gwerth tir.³⁹ Roedd adroddiad 'Land for the Many' y Blaid Lafur⁴⁰ ym mis Mehefin 2019 yn cynnwys cynigion i gyflwyno treth gwerth tir yn seiliedig ar werth rhentu tir masnachol yn lle ardrethi annomestig yn Lloegr. Hefyd, cyflwynodd y Democratiaid Rhyddfrydol gynigion i gyflwyno Ardoll ar Berchenogion Tir Masnachol yn lle ardrethi annomestig yn Lloegr.⁴¹

83. Mae'r amrywiol gynigion yn amlinellu amcanion gwahanol ar gyfer newid dyluniad trethi a dulliau cyllido lleol neu genedlaethol, yn enwedig i sicrhau defnydd mwy effeithlon o dir neu gasglu cynnydd mewn gwerth yn well er budd y cyhoedd. Mae amcan Llywodraeth Cymru wrth ystyried treth gwerth tir i ddisodli un dreth leol neu'r ddwy yn ymwneud yn bennaf â chodi refeniw sefydlog ar gyfer gwasanaethau lleol yn y ffordd decaf, gyda chanlyniadau manteisiol eraill yn cael eu hystyried lle y bo modd.

Prifysgol Bangor

84. Ym mis Mawrth 2019 comisiynwyd Prifysgol Bangor i ystyried a allai trethi lleol yng Nghymru fod yn seiliedig ar werth tir yn hytrach na'r sefyllfa bresennol, sy'n cyfuno gwerth tir ac eiddo. Roedd y cylch gorchwyl yn glir bod angen ystyried treth gwerth tir fel cysyniad a weinyddir yn lleol i ddisodli refeniw tebyg i'r hyn a godir ar hyn o bryd. Yn y cyd-destun hwn ni fwriadwyd i dreth gwerth tir gael ei hystyried fel math ychwanegol o drethiant lleol, yn codi swm sylweddol fwy neu lai o refeniw na'r hyn a godir ar hyn o bryd, nac fel cysyniad cenedlaethol.

85. Aeth Prifysgol Bangor ati i strwythuro ei hymchwil yn dair rhan:

³⁸ Ymchwiliad y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Gasglu Gwerth Tir, Tachwedd 2018.

<https://docs.google.com/viewer?a=v&pid=sites&srcid=ZGVmYXVsdGRvbWFPbnxjb2FsaXRpb25mb3JlY29ub21pY2p1c3RpY2V8Z3g6MjA0OTQ5MGQxMWJlNGM4ZA>

³⁹ Ymchwiliad Pwyllgor Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol Tŷ'r Cyffredin, Medi 2018.

<https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmcomloc/766/766.pdf>

⁴⁰ 'Land for the Many', Adroddiad i'r Blaid Lafur, Mehefin 2019. <https://landforthemany.uk/>

⁴¹ 'Taxing Land, Not Investment' y Democratiaid Rhyddfrydol, Awst 2018.

<https://www.libdems.org.uk/taxingland-notinvestment>

- adolygiad o'r corff presennol o lenyddiaeth ar dreth gwerth tir ac enghreifftiau rhyngwladol;
- casgliad sylfaenol o dystiolaeth drwy gais am dystiolaeth a chyfres o gyfweiliadau strwythuredig â nifer o arbenigwyr a rhanddeiliaid;
- ymgais i fodelu cyfres o werthoedd tir yng Nghymru.

86. Yn yr ymateb i'r cais am dystiolaeth a'r cyfweiliadau strwythuredig cafwyd nifer o safbwyntiau gwahanol, y mae Bangor wedi'u cysoni a'u hategu drwy dystiolaeth ffeithiol gefnogol. Dros yr haf a'r hydref, mae Bangor wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cymhwyso'r cysyniadau manwl at drethi lleol Cymru.

87. Mae'n dda gennym nodi bod Bangor, o fewn cwmpas yr ymchwil hon, wedi llwyddo i greu model ystadegol i amcangyfrif cyfres o werthoedd tir domestig yng Nghymru. Mae modelu prisiau hedonig yn fframwaith a ddefnyddir yn helaeth i benderfynu pwysigrwydd cymharol y newidynnau sy'n effeithio ar bris nwydd neu wasanaeth. Yn seiliedig ar y fethodoleg hon, mae model Bangor yn defnyddio amrywiaeth helaeth o ddata ar eiddo a thir ledled Cymru i amcangyfrif gwerthoedd cymharol gwahanol nodweddion, er mwyn ynysu gwerth y tir yn unig.

88. Pan ragwelwyd yr ymchwil hon yn wreiddiol, ein nod oedd canolbwyntio mwy ar y sylfaen drethu annomestig i ddechrau fel y cam cyntaf, gyda'r nod o ymgymryd â gwaith pellach ar y sylfaen drethu ddomestig. Fodd bynnag, wrth chwilio am ddata ar nodweddion eiddo, canfu Prifysgol Bangor ei bod yn haws dod o hyd i ddata ar eiddo domestig nag eiddo annomestig. Mae argaeledd data wedi atal Prifysgol Bangor rhag datblygu model prisiau hedonig ar gyfer eiddo annomestig ac mae'n mabwysiadu technegau meintiol amgen er mwyn amcangyfrif gwerthoedd tir annomestig.

89. Mae Prifysgol Bangor yn disgwyl cyhoeddi ei hadroddiad manwl tua diwedd y flwyddyn. Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a'i ddosbarthu i randdeiliaid.

Comisiwn Tir yr Alban

90. Ochr yn ochr â'r ymchwil newydd sy'n cael ei chynnal yng Nghymru, rydym wedi parhau i fonitro'r ddadl mewn mannau eraill. Mae gwaith Comisiwn Tir yr Alban yn cynnwys ystyried y potensial ar gyfer trethi sy'n seiliedig ar werth tir yn yr Alban. Rydym wedi cyfarfod â'r Comisiwn o bryd i'w gilydd er mwyn cael gwybod am hynt ei waith ac ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd y Comisiwn adroddiad mewn partneriaeth â Phrifysgol Reading.⁴²

⁴² Comisiwn Tir yr Alban, Gorffennaf 2018. <https://landcommission.gov.scot/wp-content/uploads/2018/12/Land-Value-Tax-Policy-Options-for-Scotland-Final-Report-23-7-18.pdf>

91. Er ei fod yn rhan o agenda diwygio tir lawer ehangach yn yr Alban, mae'r adroddiad yn amlinellu nodau clir ar gyfer ystyried treth gwerth tir neu ysgogiadau cyllidol eraill – er mwyn helpu defnydd tir i ddod yn fwy cynhyrchiol, amrywiol ac atebol. Mae'r Comisiwn yn wynebu heriau cyffredin o ran gweithredu (cofrestru a phrisio tir, cysylltiadau â'r system gynllunio) ond mae hefyd yn gweld nifer o gyfleoedd. Daw'r Comisiwn i'r casgliad, er bod dadl ddamcaniaethol gref o blaid treth gwerth tir, nad oes digon o dystiolaeth y byddai'n cefnogi'r amcanion (patrwm mwy cynhyrchiol, atebol ac amrywiol o ddefnydd tir). Serch hynny, cynigiodd bedwar opsiwn polisi i'w hystyried yn fanylach gan Lywodraeth yr Alban:

- opsiwn 1: ymestyn y trethi tir ac eiddo presennol, er enghraifft, drwy gynnwys tir ac eiddo nad ydynt wedi'u cynnwys ar hyn o bryd yn y sylfaen drethu annomestig;
- opsiwn 2: diwygio'r trethi tir ac eiddo presennol drwy, er enghraifft, ailbrisio ar gyfer y dreth gyngor ac ardrethi annomestig yn fwy rheolaidd a cheisio eu gwneud yn fwy graddoledig;
- opsiwn 3: cyflwyno un dreth gwerth tir ochr yn ochr â'r trethi tir ac eiddo presennol, a fyddai ond yn gymwys i dir ac eiddo nad ydynt yn dod o dan y trethi presennol; neu
- opsiwn 4: cyflwyno un dreth gwerth tir yn lle'r holl drethi tir ac eiddo presennol.

92. Mae Comisiwn Tir yr Alban yn gobeithio gwneud gwaith pellach yn 2020, gan edrych ar nifer o ysgogiadau cyllidol a allai annog gwell defnydd tir, ac ystyried patrymau perchenogaeth tir yn yr Alban yn fanylach. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gadw mewn cysylltiad â'r Comisiwn.

Treth gyngor fwy graddoledig

93. Mae system dreth effeithiol yn gofyn am ddull cadarn a chyson o asesu'r hyn sy'n cael ei drethu. Drwy'r gwaith hwn, mae'n rhaid inni gofio nad treth eiddo yn unig yw'r dreth gyngor: mae'n ymgorffori ffactorau sy'n adlewyrchu gwerthoedd eiddo, y galw am wasanaethau, a chyfansoddiad ac incwm aelwydydd. Mewn trethi eiddo, defnyddir gwerth eiddo fel dangosydd o'r galw cymharol am wasanaethau a'r gallu i gyfrannu at gost y gwasanaethau a ddarperir. Gosodir eiddo sy'n agored i dalu'r dreth gyngor mewn un o naw band treth gyngor yn seiliedig ar werthoedd eiddo a asesir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Mae bandiau treth gyngor yng Nghymru yn seiliedig ar werthoedd eiddo ar 1 Ebrill 2003. Gan ei bod wedi mynd drwy ymarfer ailbrisio ers ei sefydlu, mae Cymru mewn gwell sefyllfa na Lloegr a'r Alban lle y codir y dreth gyngor ar sail gwerthoedd eiddo o 1991.

94. Heb ymarfer ailbrisio newydd o'r 1.4 miliwn eiddo domestig yng Nghymru, cyfyngir ar ein gallu i wneud newidiadau sylfaenol a fyddai'n helpu i wneud y

system yn decach – er enghraifft, gallai fod yn bosibl ychwanegu bandiau i wneud y dreth yn fwy graddoledig neu foderneiddio'r trothwyon yn unol ag amodau presennol y farchnad.

Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid

95. Ym mis Chwefror 2019 comisiynwyd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid i gynnal ffug ymarfer ailbrisio ar gyfer y dreth gyngor i Gymru, gan ddefnyddio model ystadegol wedi'i seilio ar ddata Cymru ar nodweddion eiddo domestig a nodweddion ardal. Gan ddefnyddio amrywiol dechnegau, gall y Sefydliad Astudiaethau Cyllid amcangyfrif set gyfredol o brisiadau ar gyfer eiddo, yna lunio ffug atebolrwyddau newydd i dalu'r dreth gyngor, a dadansoddi'r effeithiau ar awdurdodau lleol ac ar aelwydydd. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid hefyd yn ystyried nifer o ddiwygiadau i strwythur y dreth gyngor er mwyn deall a ellid cyflawni sefyllfa lai atchweliadol mewn perthynas â'r elfen o'r dreth sy'n ymwneud â gwerth eiddo.
96. Wrth ddiweddarau sylfaen drethu'r dreth gyngor i adlewyrchu prisiadau eiddo cyfredol, mae'n debygol y byddai awdurdodau lleol yn gweld amrywiadau yn nifer yr eiddo sy'n symud i fandiau uwch a symud i fandiau is, gan fod y cynnydd ym mhrisiau eiddo ers 2003 wedi amrywio ledled Cymru. Byddai awdurdodau lleol yn gweld newidiadau yn eu sylfeini trethu lleol ac felly newidiadau yn y refeniw y gellid ei godi o bosibl ym mhob ardal. Yna, Llywodraeth Cymru fyddai'n gyfrifol am ystyried, mewn ymgynghoriad â llywodraeth leol, sut y dylid ystyried hyn wrth ddyrannu'r Grant Cynnal Refeniw blyneddol. Ar hyn o bryd, mae'r fformiwla gyllido ar gyfer dyrannu'r Grant Cynnal Refeniw yn ailddosbarthu cyllid grant rhwng awdurdodau lleol yn seiliedig, yn rhannol, ar y gallu lleol i godi refeniw o'r dreth gyngor.
97. Bydd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn mesur yr effaith ar aelwydydd drwy gymharu biliau treth gyngor cyn ac ar ôl yr amrywiol ddiwygiadau wedi'u modelu, ac asesu effaith y rhain ar fathau gwahanol o aelwydydd mewn perthynas ag incwm aelwydydd. Gan ddefnyddio gwybodaeth o'r arolwg Deall Cymdeithas, mae'r prosiect yn ystyried effaith diwygiadau i'r dreth gyngor ar aelwydydd o bensiynwyr a phobl o oedran gweithio, teuluoedd gyda a heb blant, perchenogion cartrefi, rhentwyr preifat a chymdeithasol, pobl sengl a mathau eraill o aelwydydd. Bydd hyn yn wybodaeth hollbwysig i Lywodraeth Cymru wrth ystyried unrhyw newidiadau i'r dreth gyngor yn y dyfodol.
98. Mae'r ffug ymarfer ailbrisio i Gymru gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn rhan o brosiect ehangach ar ailbrisio ar gyfer y dreth gyngor yng Nghymru a Lloegr. Caiff ei oruchwylio gan Grŵp Cyngori sy'n cynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol, grwpiau dinasyddion, Llywodraeth y DU, sefydliadau academaidd ac arbenigwyr

mewn trethiant. Mae'r Grŵp Cyngori wedi cynnal nifer o gyfarfodydd drwy gydol y prosiect a bydd yn ymgynnull yn fuan i ystyried canfyddiadau drafft.

99. Rydym yn falch o fod wedi cydweithio â sefydliad uchel iawn ei barch i ystyried yn fanylach yr anghenion a'r gofynion penodol ar gyfer y dreth gyngor yng Nghymru. Disgwylir i adroddiad sy'n ymwneud â Chymru yn benodol gael ei gyhoeddi gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid cyn diwedd y flwyddyn. Mae'r prosiect hwn yn gwneud cyfraniad allweddol i'n hystyriaeth o'r ffordd y gellid sicrhau treth gyngor fwy graddoledig, sef un o ymrwymïadau *Symud Cymru Ymlaen*.

Prifysgol Sheffield

100. Ochr yn ochr â gwaith y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, mae Prifysgol Sheffield yn cynnal dadansoddiad ystadegol cydategol, gan ddefnyddio'r arbenigwyr a gynhaliodd ffug ymarfer ailbrisio yn yr Alban i gyfrannu at waith Comisiwn yr Alban ar Ddiwygio Trethi Lleol. Bydd y prosiect hwn yn rhoi gwybodaeth bwysig inni ddeall sut y gallai technegau ystadegol gwahanol greu prisiadau eiddo tebyg neu wahanol a pha mor gadarn yw'r amrywiol fathau o ddata a ddefnyddir i lunio prisiadau. Disgwylir adroddiad gan Brifysgol Sheffield ar ddechrau 2020.

101. Mae ymarferiadau ailbrisio ar gyfer y dreth gyngor yn gostus ac yn heriol i'w cynnal. Bydd y gwaith hwn hefyd yn ein helpu i ystyried dulliau mwy modern o ddefnyddio methodolegau prisio maes o law, er enghraifft, a allai dull symlach sy'n seiliedig ar ddull ystadegol fod yn ddigon cadarn i fod yn sail i system drethu leol.

Trethi Lleol yn seiliedig ar incwm

102. Ar adeg cyhoeddi'r diweddariad hwn rydym yn ceisio arbenigedd allanol i gynnal ymchwil annibynnol, yn debyg i'r darnau eraill sy'n mynd rhagddynt, i ystyried a ellid codi'r dreth gyngor ar sail incwm aelwydydd yn hytrach na gwerth eiddo a thir. Mae Treth Incwm Leol fel cysyniad wedi cael ei hystyried yn y DU drwy gydol rhan gyntaf yr 21ain Ganrif, yn bennaf gan Ymchwiliad Lyons⁴³ yn Lloegr ac Adolygiad Burt⁴⁴ yn yr Alban. Yn 2015, asesodd Comisiwn yr Alban ar Ddiwygio Trethi Lleol⁴⁵ ddulliau newydd posibl o godi trethi lleol gyda ffocws manwl ar dreth incwm leol.

103. Un o nodweddion allweddol y system dreth gyngor yw'r cysylltiad daearyddol uniongyrchol rhwng lleoliad eiddo ac ardal yr awdurdod lleol lle y codir y dreth a lle y gwneir penderfyniadau ar ddarparu gwasanaethau lleol. Mae wedi bod yn

⁴³ Ymchwiliad Lyons, Mawrth 2007. <http://www.lyonsinquiry.org.uk/>

⁴⁴ Adolygiad Burt, Tachwedd 2016. <https://www.gov.scot/Publications/2006/11/06105402/0>

⁴⁵ Comisiwn yr Alban ar Ddiwygio Trethi Lleol, Rhagfyr 2015.
<https://localtaxcommission.scot/download-our-final-report/>

heriol inni gymhwyso'r syniad o dreth incwm leol ar ei ffurf buraf at y dreth gyngor yng Nghymru heb amharu hefyd ar atebolrwydd lleol, a gofyn am lif cyllid nas caniateid o dan y setliad datganoli presennol. Felly, wrth geisio ymchwil, nid ystyried a oes modd cymhwyso treth incwm ar ei ffurf bresennol yn lleol yr hoffem ei wneud ond, yn hytrach, a allai'r drefn bresennol o godi treth ar gyfer treth gyngor a weinyddir yn lleol gael ei chynllunio'n fwy syml ar sail asesiadau lleol o incwm aelwydydd.

104. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru eisoes gynnal asesiadau manwl o incwm aelwydydd ar is-set o sylfaen drethu'r cyngor, e.e. er mwyn nodi bron 300,000 o aelwydydd incwm isel sy'n gymwys o dan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae awdurdodau lleol hefyd yn brofiadol o ran asesu incwm ac amgylchiadau aelwydydd fel mater o drefn wrth ystyried ceisiadau am ryddhad dewisol oherwydd caledi, wrth gymryd camau gorfodi a chynnal gweithgareddau adennill dyledion, ac wrth ystyried ceisiadau am ostyngiadau, distyriadau ac eithriadau.

105. Os ydym yn meddwl am dreth gyngor yn cael ei chodi ar sail gwybodaeth a ddelir am incwm ac amgylchiadau aelwydydd, ond sy'n gysylltiedig o hyd â chyfeiriad, yna yr heriau ymarferol fyddai:

- a all llywodraeth leol gael yr wybodaeth sydd ei hangen arni i nodi incwm aelwydydd dros ran helaethach o'r sylfaen drethu a chyda'r manylder angenrheidiol;
- sut i benderfynu beth sy'n cyfrif neu ddim yn cyfrif fel incwm;
- sut i leihau'r achosion o gofnodi incwm neu brif breswylfannau yn dwyllodrus.

106. Un ffactor allweddol ar gyfer llwyddiant yw argaeledd data pwysig sy'n ddigon cadarn i helpu awdurdodau bilio i seilio biliau treth gyngor ar incwm. Heb hynny, byddai angen i awdurdodau bilio eu hunain ofyn i aelwydydd yn uniongyrchol am y wybodaeth sydd ei hangen arnynt; byddai angen i fanteision treth fwy graddnodedig orbwyso cynnydd sylweddol posibl mewn gweinyddiaeth. Efallai y bydd cwestiynau hefyd o ran pa mor dderbyniol i'r cyhoedd yw rhoi gwybodaeth am incwm i awdurdodau lleol. Un anfantais gyffredin a nodwyd yn y llenyddiaeth yw bod trethi incwm lleol yn symud baich y dreth oddi ar bensiynwyr (sy'n talu'r dreth gyngor ar hyn o bryd) i'r boblogaeth oedran gweithio. Fodd bynnag, cyhyd ag y gellid casglu digon o wybodaeth am incwm aelwydydd o bensiynwyr, gydag ystyriaeth lawn o ardrethi treth priodol a'r hyn sy'n gyfystyr ag incwm, gall fod yn bosibl i aelwydydd o bensiynwyr barhau i gyfrannu at gost gwasanaethau lleol yn y ffordd hon.

107. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol nodi'r swm y mae angen iddynt ei godi drwy'r dreth gyngor drwy, yn gyntaf, bennu eu cyllidebau ar gyfer darparu gwasanaethau, a didynnu pob math arall o refeniw megis Grant Cynnal Refeniw

a'u cyfran o gyfraddau annomestig dosbarthedig. Yna, caiff y 'gofyniad treth gyngor' ei rannu ar draws y sylfaen drethu sydd ar gael. Mae'r weithdrefn hon yn deillio'n uniongyrchol o'r gofyniad ar lywodraeth leol i fantoli ei hincwm a'i gwariant bob blwyddyn a'r disgwyliad na all awdurdodau gynhyrchu elw o'r broses o bennu cyllideb. Drwy gadw'r nodweddion hyn gellir osgoi anfantais gyffredin y rhan fwyaf o gynigion ar gyfer trethi incwm lleol, sef bod refeniw yn gostwng pan fo amgylchiadau economaidd yn dirywio.

108. Rydym yn glir bod yn rhaid i dreth incwm leol gael ei hystyried fel trefn drethu leol, h.y. wedi'i gweinyddu'n lleol a'i defnyddio i gyllido gwariant awdurdod lleol, gan gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau lleol a chodi refeniw tebyg i'r system bresennol. Yn 2018, gwerthusodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru⁴⁶ y system drethiant yng Nghymru, gan nodi risgiau a chyfleoedd. Daeth i'r casgliad y dylai diwygiadau i bolisi treth ar gyfer trethi datganoledig a threthi lleol a'r cydbwysedd rhwng trethi eiddo a threthi incwm gael eu hystyried mewn cyddestun cyffredinol. O ganlyniad, bydd ymchwiliad i ddiwygio trethi lleol hefyd yn ystyried unrhyw ryngweithio â Chyfraddau Treth Incwm Cymru yn ogystal ag unrhyw berthynas bosibl â'r ddwy dreth ddatganoledig. Caiff rhagor o waith ymchwil ei gyhoeddi maes o law.

⁴⁶ Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Gorffennaf 2018: <https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/y-sylfaen-drethu-gymreig-risgiau-a-chyfleoedd-ar-ol-datganoli-cyllidol/>